

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.



Adran Gwaith
a Phensiynau

Canllaw i Bensiynwyr



Dim ond copi yw'r daflen hon o wybodaeth a ddewiswyd wedi'i gymryd o **www.gov.uk** ar 1 Mai 2015. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arni fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.



Cynnwys

Y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth	3
Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth	6
Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth	8
Dod o hyd i bensiwn ar goll	10
Credyd Pensiwn	10
Pensiwn y Wladwriaeth os byddwch yn ymddeol dramor	12
Benthyciadau Cyllidebu	12
Budd-dal Tai	13
Gostyngiad Treth y Cyngor	13
Taliad Tywydd Oer	13
Lwfans Gweini	14
Lwfans Gofalwr	14
Lwfans Gwarcheidwad	15
Grant cyfleusterau i'r anabl	16

Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio testun a gymerwyd o www.gov.uk on 1 Mai 2015.

© Hawlfraint y Goron
ISBN 978-1-78425-477-3
DWP25W (Mehefin 2015)



Ynglŷn â Chodau QR

Mae'r codau bar sgwâr hyn yn agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio i mewn cyfeiriadau gwe hir. Gallwch gael ap rhad ac am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o smartphones.



Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth

www.gov.uk/state-pension

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn newid. Nid yw'r canllaw hwn yn berthnasol i chi os ydych:

- yn ddyn a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- yn ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953

Bydd angen i chi ddarllen am Bensiwn y Wladwriaeth newydd yn lle hynny. Cael gwybod mwy am www.gov.uk/new-state-pension

Byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016

Mae Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd gan y llywodraeth y gallwch ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

I'w gael mae'n rhaid eich bod wedi talu neu wedi cael eich credydu â chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cynyddu bob blwyddyn gan ba un bynnag yw'r uchaf:

- enillion - y twf canrannol cyfartalog mewn cyflogau (ym Mhrydain Fawr)
- prisiau - y twf canrannol mewn prisiau yn y DU fel y mae'n cael ei fesur gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)
- 2.5%

Gallwch ddod o hyd i'r swm Pensiwn y Wladwriaeth ddiweddaraf ar www.gov.uk/state-pension

Fel arfer, mae'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cael ei dalu bob 4 wythnos i mewn i gyfrif o'ch dewis. Rydych yn cael eich talu 'mewn ôl-ddyled', hy rydych yn cael eich talu am y 4 wythnos diwethaf, nid ar gyfer y 4 wythnos nesaf.

Mae rheolau gwahanol os ydych yn byw dramor.

Efallai y bydd rhaid i chi dalu treth ar eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Gallwch ychwanegu at eich Pensiwn y Wladwriaeth os:

- rydych yn disgwyl y bydd eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn llai na'r swm llawn
- rydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- rydych yn bodloni'r rheolau cymhwyso

Defnyddiwch y cyfrifiannell Pensiwn y Wladwriaeth i gael amcangyfrif cyflym yn www.gov.uk/calculate-state-pension neu wneud cais am ddatganiad Pensiwn y Wladwriaeth fanwl ar www.gov.uk/calculate-state-pension-statement

Sut i wneud cais

Ni fyddwch yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth yn awtomatig - mae'n rhaid i chi wneud cais amdano. Dylech gael llythyr 4 mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, yn dweud wrthyhych beth i'w wneud.

Os nad ydych wedi cael llythyr 3 mis cyn eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ffoniwch y llinell hawlio. Byddant yn trafod gyda chi beth sydd angen i chi ei wneud.

Mae 4 o ffyrdd i hawlio:

- ceisiadau pensiwn y Wladwriaeth ar-lein - www.gov.uk/claim-state-pension-online
- dros y ffôn
- lawr lwytho'r ffurflen gais Pensiwn y Wladwriaeth o www.gov.uk a'i hanfon i'ch canolfan pensiwn lleol
- cais o dramor, gan gynnwys Ynysoedd y Sianel www.gov.uk/state-pension-if-you-retire-abroad

Llinell hawlio Pensiwn y Wladwriaeth

Ffôn: 0800 731 7898

Ffôn testun: 0800 731 7339

Dydd Llun i ddydd Gwener o 8am i 6pm (heblaw gwyliau cyhoeddus)

Cael gwybod am gostau galwadau ar www.gov.uk/call-charges

Eich amgylchiadau'n newid

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Pensiwn os bydd unrhyw beth yn eich amgylchiadau yn newid, ee os ydych yn:

- symud cartref
- mynd i mewn neu'n dod allan o'r ysbyty
- symud dramor neu ddychwelyd i'r DU
- mynd i gartref gofal
- newid eich cyfrif banc
- priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil
- cael ysgariad neu eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu
- yn weddw neu'ch partner sifil yn marw

Beth sy'n digwydd i'ch Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch chi'n marw

Os yw eich priod neu'ch partner sifil dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn marw, dylent gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn i weld yr hyn y gallant wneud cais amdano. Efallai y byddant yn gallu cynyddu eu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio eich blynyddoedd cymhwyso os nad ydynt eisoes yn cael y swm llawn.

Os ydynt o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn marw bydd unrhyw Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich blynyddoedd cymhwyso yn cael eu cynnwys pan fyddant yn hawlio eu Pensiwn y Wladwriaeth eu hunain. Er mwyn i hyn ddigwydd ni allant fod wedi ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd erbyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Rydych chi'n sengl neu wedi ysgaru

Os ydych yn sengl, wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil ei diddymu a byddwch yn marw ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gall eich ystâd hawlio hyd at 3 mis o'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Gallant ddim ond gwneud hyn os nad ydych wedi gwneud cais amdano.

Arian ychwanegol o ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth

Os yw eich priod neu'ch partner sifil dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn marw, dylent gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn i weld yr hyn y gallant wneud cais amdano. Efallai y byddant yn gallu cynyddu eu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio eich blynyddoedd cymhwys o nad ydynt eisoes yn cael y swm llawn.

Os ydynt o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn marw bydd unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich blynyddoedd cymhwys yn cael eu cynnwys pan fyddant yn hawlio eu Pensiwn y Wladwriaeth eu hunain. Er mwyn i hyn ddigwydd ni allant fod wedi ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd erbyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.



Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

www.gov.uk/additional-state-pension

Byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016

Mae Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn swm ychwanegol o arian y gallech ei gael gyda'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Mae'n seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar eich enillion ac a ydych wedi hawlio budd-daliadau penodol. Nid oes unrhyw swm penodol fel y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Byddwch yn cael y Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn awtomatig, oni bai eich bod wedi eithrio.

Mae Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn cael ei dalu gyda'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac yn cynyddu bob blwyddyn gyda chwyddiant.

Pryd y gallwch eithrio

Gallwch ond eithrio o Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth os bydd eich cyflogwr yn rhedeg cynllun pensiwn eithrio. Gwiriwch gyda nhw.

I eithrio mae'n rhaid i chi fod yn ennill dros y terfyn enillion is o £5,824 yn y flwyddyn dreth 2015-2016.

Tra eich bod yn aelod o bensiwn gweithle eithrio nid ydych yn cyfrannu tuag at Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth.

Yswiriant Gwladol wrth eithrio

Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is tra byddwch yn eithrio, ac efallai y byddwch yn cael ad-daliad os:

- rydych yn ennill rhwng £112 a £155 yr wythnos
- rydych chi o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- nid ydych yn talu Yswiriant Gwladol cyfradd is

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn ymddeol

Byddwch yn cael pensiwn o gynllun pensiwn gweithle eich cyflogwr.

Os oeddech yn aelod o gynllun pensiwn gweithle ar sail cyflog eithrio cyn 6 Ebrill 1997, mae gennych hawl i 'Isafswm Pensiwn Gwarantedig'. Holwch eich cyflogwr neu'r gwasanaeth olrhain pensiwn.

Helpu i benderfynu os dylech eithrio

Cysylltwch â darparwr eich cynllun pensiwn neu siarad â chynghorydd ariannol annibynnol am fwy o wybodaeth, neu ffoniwch Cyllid a Thollau EM (CThEM) llinell gymorth Pensiynau Eithrio.

Ffôn: 0300 200 3507

Ffôn testun: 0845 915 3296

8.30pm i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Penwythnosau caeedig a gwyliau banc.



Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth

www.gov.uk/deferring-state-pension

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn newid. Mae rheolau gwahanol ar gyfer gohirio eich pensiwn y wladwriaeth os ydych:

- yn ddyd a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- yn ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953

Cael gwybod mwy am www.gov.uk/new-state-pension

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016

Pensiwn y Wladwriaeth Ychwanegol

Efallai y byddwch yn ennill Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf 5 wythnos.

Bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu 1% am bob 5 wythnos i chi oedi cyn gwneud cais. Mae hyn yr un fath â 10.4% ar gyfer pob blwyddyn lawn y byddwch yn oedi cyn gwneud cais.

Unwaith y byddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, bydd unrhyw Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol rydych wedi'i gronni, fel arfer yn cynyddu bob blwyddyn.

Cyfundaliad

Efallai y byddwch yn dewis cael cyfundaliad unigryw os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf 12 mis yn olynol. Bydd hyn yn cynnwys llog o 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol yn cyfrif fel incwm ac mae rhaid i chi dalu treth arno. Mae eich cyfundaliad yn cael ei drethu ar y gyfradd dreth uchaf sy'n berthnasol i'ch incwm arall. Cael gwybod mwy am www.gov.uk/tax-on-pension

Mae'r rheolau ar gyfer gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth yn newid os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

Pensiwn y Wladwriaeth Ychwanegol

Os ydych yn cael budd-daliadau prawf modd, bydd Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol wedyn yn cyfrif fel incwm a fydd yn effeithio'r budd-daliadau hyn, er enghraifft:

- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Gostyngiad Treth Cyngor
- Credydau treth

Os ydych yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, ni fyddwch yn cronni unrhyw daliad Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad ar gyfer y dyddiau rydych hefyd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn berthnasol i incwm)
- Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Credyd Cynhwysol
- Lwfans Gofalwr
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Anableded Difrifol
- Pensiwn Gwraig Weddw
- Lwfans Mam Weddw
- Atodiad i'r Anghyflogadwy
- unrhyw fath o Bensiwn y Wladwriaeth

Os ydych yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, ni fyddwch yn cronni unrhyw daliad Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad ar gyfer y diwrnodau mae eich partner yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn berthnasol i incwm)
- Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Credyd Cynhwysol

Os ydych yn cael Budd-dal Ymddeol Graddedig neu Bensiwn Ychwanegol a Rennir, bydd y dyddiau hyn yn cyfrif tuag at eich swm Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad.

Cyfandaliadau

Os byddwch yn dewis cyfandaliad a hawlio Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor, ni fydd budd-daliadau hyn yn cael eu heffeithio.



Dod o hyd i bensiwn a gollwyd

www.gov.uk/find-lost-pension

Dewch o hyd i bensiwn a gollwyd trwy gysylltu â'r Gwasanaeth Orlhain Pensiwn ar-lein. Bydd gofyn i chi lenwi ffurflen. Mae'r gwasanaeth hwn am ddim.

Byddwch yn cael cyfeiriad darparwr eich cynllun os gall y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn ddod o hyd i gofnod ohonynt.

Nid oes gan y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn mynediad i fanylion pensiwn preifat. Rhaid i chi gysylltu â darparwr eich cynllun i gael gwybod beth yw gwerth eich pensiwn.



Credyd Pensiwn

www.gov.uk/pension-credit

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm sy'n cynnwys 2 ran - Credyd Gwarantiedig a Chredyd Cynilo.

Mae Credyd Gwarantiedig yn ychwanegu at eich incwm wythnosol os yw'n is na swm penodol.

Mae Credyd Cynilo yn daliad ychwanegol ar gyfer pobl sy'n cynilo rhywfaint o arian tuag at eu hymddeoliad, ee pensiwn.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Credyd Cynilo os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

Nid ydych yn talu treth ar Credyd Pensiwn.

Credyd Gwarantiedig

I fod yn gymwys ar gyfer Credyd Gwarantiedig:

- rhaid i chi fyw ym Mhrydain Fawr
- rhaid i chi neu'ch partner fod wedi cyrraedd oedran cymhwys o ar gyfer Credyd Pensiwn.

Mae'r oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn yn raddol yn mynd i fyny i 66 yn unol â'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched i 65 a'r cynnydd pellach i 66 ar gyfer dynion a merched.

Cael gwybod mwy am Gredyd Pensiwn a phryd y gallech ei gael.

Credyd Cynilion

I fod yn gymwys ar gyfer Credyd Cynilo ychwanegol y mae'n rhaid i chi neu'ch partner fod yn 65 oed neu'n hŷn.

Rydych yn cael eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner. Nid oes rhaid i chi fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Ni allwch gael Credyd Pensiwn os byddwch yn symud dramor yn barhaol.

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

Ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn gymwys i gael Credyd Cynilo.

Efallai y byddwch yn dal i gael Credyd Cynilo os ydych yn rhan o gwpl ac mae un ohonoch wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016. Y ffordd gyflymaf i wneud cais am Gredyd Pensiwn yw dros y ffôn.

Ffôn: **0800 99 1234**

Ffôn testun: **0800 169 0133**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm



Pensiwn y Wladwriaeth os byddwch yn ymddeol dramor

www.gov.uk/state-pension-if-you-retire-abroad

Gallwch hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth dramor. Cysylltwch â'r Ganolfan Bensiwn Rhyngwladol os nad ydych wedi derbyn llythyr 3 mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Treth ar eich Pensiwn y Wladwriaeth

Efallai y bydd rhaid i chi dalu treth y DU ar eich Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn byw dramor. Mae hyn yn dibynnu ar:

- eich incwm trethadwy
- p'un a ydych yn cael eich ystyried fel preswlydd yn y DU at ddibenion treth

Preswylwyr y DU

Mae'r rheolau'r un fath ag ar gyfer pobl sy'n byw yn y DU - byddwch ond yn talu treth os yw eich incwm trethadwy yn fwy na swm penodol.

Preswylwyr tu allan i'r DU

Nid ydych fel arfer yn talu treth y DU ar Bensiwn y Wladwriaeth os nad ydych yn preswyllo yn y DU - ond efallai y byddwch yn talu treth yn y wlad lle rydych yn byw.

Os ydych yn byw mewn gwlad heb 'gytundeb trethiant dwbl' gyda'r DU, efallai y byddwch yn talu treth yn y ddwy wlad.



Benthyciadau Cyllidebu

www.gov.uk/budgeting-loans

Gallech gael Benthyciad Cyllidebu i helpu i dalu am bethau hanfodol fel dodrefn, dillad, costau symud neu ddyledion hurbwrcas. Y swm lleiaf y gallwch ei fenthyg yw £ 100.

Mae Benthyciadau Cyllidebu yn ddi-log fel eich bod ddim ond yn talu yn ôl yr hyn rydych yn ei fenthyg. Fel arfer, rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad o fewn 104 wythnos.

Bydd yr ad-daliadau yn dod o'ch budd-daliadau. Bydd rhaid i chi gytuno ar ffordd arall i ad-dalu os byddwch yn rhoi'r gorau i gael budd-daliadau.

Gallwch wneud cais am fenthyciad os ydych wedi bod yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm am o leiaf 26 wythnos. Mae'n rhaid i chi dal gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm pan fydd eich cais yn cael ei asesu.



Budd-daliadau Tai

www.gov.uk/housing-benefit

Gallech gael Budd-dal Tai i'ch helpu i dalu eich rhent os ydych ar incwm isel.



Gostyngiad Treth y Cyngor

www.gov.uk/apply-council-tax-reduction

Gwnewch gais i'ch cyngor lleol ar gyfer Gostyngiad Treth Cyngor (a elwir weithiau yn Gymorth Treth Cyngor).

Byddwch yn cael gostyngiad ar eich bil os ydych chi'n gymwys.



Taliad Tywydd Oer

www.gov.uk/cold-weather-payments

Efallai y gallech gael Taliad Tywydd Oer os ydych yn cael budd-daliadau penodol.

Gwneir y taliadau pan fydd eich tymheredd lleol yn naill ai'n cael ei gofnodi fel, neu rhagwelir y bydd, yn gyfartaledd o sero gradd Celsius neu'n is am 7 diwrnod yn olynol.

Cymorth anabledd



Lwfans Gweini

www.gov.uk/attendance-allowance

Gallech gael Lwfans Gweini i helpu gyda gofal personol oherwydd eich bod yn anabl yn gorfforol neu'n feddyliol ac rydych yn 65 oed neu'n hŷn.

Mae'n cael ei dalu ar 2 gyfradd wahanol ac mae faint y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar lefel y gofal sydd ei angen arnoch oherwydd eich anabledd chi.

Gall y budd-daliadau eraill a gewch gynyddu os ydych yn cael Lwfans Gweini.



Lwfans Gofalwr

www.gov.uk/carers-allowance

Mae Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu i'ch helpu i ofalu am rywun sydd ag anghenion gofal sylweddol. Nid oes rhaid i chi fod yn perthyn i, neu'n byw gyda'r sawl yr ydych yn gofalu amdano.

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu drosodd ac yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu amdanynt.

Mae Lwfans Gofalwr yn drethadwy. Gall hefyd effeithio ar eich budd-daliadau eraill.

Fel arfer, ni allwch gael 2 fudd-dal amnewid- incwm (ee Lwfans Gofalwr a Phensiwn y Wladwriaeth) a delir gyda'i gilydd.

Gelwir hyn yn 'rheol budd-dal gorgyffwrdd'. Os na allwch gael Lwfans Gofalwr oherwydd y rheol hon, mae gennych 'hawl waelodol' i Lwfans Gofalwr yn lle hynny. Gallai hyn olygu y gallwch gael:

- y premiymau gofalwr mewn Lwfans Ceisio Gwaith a Chymhorthdal Incwm
- y swm ychwanegol i ofalwyr mewn Credyd Pensiwn
- yr elfen gofalwr mewn Credyd Cynhwysol

Eich Pensiwn y Wladwriaeth

Fel arfer, ar gyfer pob wythnos y byddwch yn cael Lwfans Gofalwr neu'r hawl gwaelodol byddwch hefyd yn cael:

- Credydau Yswiriant Gwladol
- Cyfraniadau at eich Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth

Cael ffurflen gais trwy chwilio 'AA1A' ar www.gov.uk. Neu ffoniwch

Ffôn: **0345 605 6055**

Ffôn testun: **0345 604 5312**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Nid yw galwadau i rifau 0345 yn costio dim mwy na galwad ddaearyddol safonol, ac yn cyfrif tuag at unrhyw funudau am ddim neu gynhwysol yn eich contract llinell daear neu ffôn symudol.



Lwfans Gwarcheidwad

www.gov.uk/guardians-allowance

Gallech gael Lwfans Gwarcheidwad os ydych chi'n magu plentyn y mae eu rhieni wedi marw. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys os oes un rhiant sydd wedi goroesi. Byddwch yn ei gael ar ben Budd-dal Plant ac mae'n ddi-dreth.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr Uned Lwfans Gwarcheidwad am newidiadau penodol i'ch amgylchiadau.



Grant cyfleusterau i'r anabl

www.gov.uk/disabled-facilities-grants

Gallech gael grant gan eich cyngor os ydych yn anabl ac angen i ni wneud newidiadau i'ch cartref, er enghraifft er mwyn:

- ehangu drysau a gosod rampiau
- gwella mynediad i ystafelloedd a chyfleusterau - ee lifftiau grisiau neu ystafell ymolchi i lawr y grisiau
- darparu system wresogi sy'n addas ar gyfer eich anghenion
- addasu rheolyddion gwresogi neu oleuo i'w gwneud yn haws i'w defnyddio

Ni fydd Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau byddwch yn ei gael.

I gael ffurflen gais, cysylltwch ag adran iechyd tai neu amgylchedd eich cyngor lleol.

Fel arfer, bydd angen i'r cyngor gael 2 amcangyfrif ysgrifenedig ar gyfer y gwaith. Efallai y byddant yn gallu rhoi rhestr o adeiladwyr i chi neu eich cyngori am gyflogi un.

Rydym angen eich help

Rydym yn awyddus i ddeall mwy am y bobl sy'n defnyddio ein taflenni. A fyddedych cystal ag ateb y cwestiynau isod, rhwygwch y cerdyn hwn a'i phostio i'r cyfeiriad dros y dudalen. Ni fydd angen stamp arnoch.

Sut ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd?

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Fy nghyfrifiadur | <input type="checkbox"/> Cyfaill neu deulu |
| <input type="checkbox"/> Ffôn symudol | <input type="checkbox"/> Llyrfgell neu gyfrifiadur cyhoeddus |
| | <input type="checkbox"/> Ni allaf ddefnyddio'r rhyngrwyd |

Os ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, pam y cawsoch gopi argraffedig?

O ble y cawsoch y daflen hon?

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Y Ganolfan Gwaith neu'r Adran Gwaith a Phensiynau | <input type="checkbox"/> Cyfaill neu ffrind |
| <input type="checkbox"/> Canolfan Gyngor ar Bopeth neu ganolfan gyngor leol | <input type="checkbox"/> Arall |

Pa mor ddefnyddiol oedd y daflen wrth ateb eich cwestiynau?

- | | |
|--|---|
| <input type="checkbox"/> Defnyddiol iawn | <input type="checkbox"/> Ddim yn ddefnyddiol iawn |
| <input type="checkbox"/> Eithaf defnyddiol | <input type="checkbox"/> Gwbl anefnyddiol |

Ar ôl darllen y daflen, beth ydych chi'n bwriadu gwneud nesaf?

Amdanoch chi

Mae gennym ddi-ddordeb mewn gwybod ychydig fwy amdanoch chi.

- | | | | | | |
|--------------|---|--------------|--------------------------------|--------------|----------------------|
| Ydych chi'n: | <input type="checkbox"/> Hawlio budd-dal | Ydych chi'n: | <input type="checkbox"/> Gwryw | Eich oedran: | <input type="text"/> |
| | <input type="checkbox"/> Gweithio | | <input type="checkbox"/> Benyw | | |
| | <input type="checkbox"/> Cael Pensiwn y Wladwriaeth | | | | |

Anfonwch y cerdyn hwn **yn unig**.
Peidiwch â chynnwys unrhyw ddogfennau eraill.

DWP25W

Business Reply Plus
Licence Number
RTLJ-LTBE-THBS



2

Department for Work & Pensions
Quarry House
Quarry Hill
LEEDS
LS2 7UA